Cofnodion Panel Darparwyr 14/10/09 1.30yp Ystafell Madog, Coleg Llandrillo

Presennol: Diane Martin, Coleg Glannau Dyfrdwy; Liz Williams, Coleg Glannau Dyfrdwy; Frances Jones, Popeth Cymraeg; Catrin Keller, Coleg Llandrillo; Helen Pritchard Jones, Coleg Iâl; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Howard Edwards, Popeth Cymraeg; Elwyn Hughes, Prifysgol Bangor; Dafydd Rhys, Coleg Harlech; Ann Rhian Hughes, Coleg Menai; Ifor Gruffydd, CCiO; Haydn Hughes, CCiO; Pam Evans-Hughes, CCiO; Jina Gwyrfai, CCiO;; Gary Smith, CCiO; Sian Davies, CCiO; Siwan Hywel, CCiO; Ellen Roberts, CCiO; Elliw Ellis Davies, Atom PR.

Ymddiheuriadau: Phil Bassett, Prifysgol Glyndŵr; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyrn; Fflur Rees Roberts, Coleg Meirion Dwyfor.

Ethol Cadeirydd: Cynigwyd fod Elwyn Hughes yn aros fel Cadeirydd am flwyddyn arall, nid oedd unrhyw welliant ac fe gytunodd Elwyn i barhau a'r gwaith. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth diflino.

Cafodd Papur A, Papur B, Papur C(a) a Phapur C(b) eu dosbarthu gyda'r agenda cyn y cyfarfod.

1. Cofnodion cyfarfod 17/06/09 (Papur A) – cafwyd fod y cofnodion yn gywir.

2. Materion yn codi o'r cofnodion
7. Hyfforddiant - wedi bwriadu cynnig y cymhwyster mewn blwyddyn yn 2009/2010 ond fe newidiwyd yr amodau a chan y byddai angen arsylwi nifer sylweddol o ddosbarthiadau yn ychwanegol yn ystod y flwyddyn o dan yr amodau newydd, byddai hyn yn anymarferol a phenderfynwyd peidio cynnig y cymhwyster eleni.
8. Data - Y Ganolfan wedi cyrraedd ei tharged ac wedi derbyn cyllid ychwanegol. Cafodd rhai darparwyr drafferth i gyrraedd eu targed, mae pwysigrwydd llwyddo i wneud hyn yn cynyddu. Pwysleisiodd IG yr angen i bawb fonitro eu perfformiad ac i sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd eleni.

3. Cyhoeddusrwydd a Marchnata - croesawyd Elliw Ellis Davies i'r cyfarfod i roi adroddiad am waith cwmni ATOM PR hyd yma. Adroddodd Elliw fod y gwaith cefndirol wnaethpwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf bellach yn dwyn ffrwyth a bod deunydd gweledol i'w ddangos. Rhoddodd gyflwyniad i'r wefan ar ei newydd wedd -

- Tiwtoriaid – mae mwy o waith datblygu i'w wneud yn yr adran hon
- Newyddion – byddai unrhyw straeon neu luniau ar gyfer yr adran hon yn cael eu croesawu
- Dysgwyr - gofynnwyd i'r darparwyr annog eu tiwtoriaid i hyrwyddo defnydd o'r wefan ymhlith dysgwyr ac i adrodd yn ôl gydag adborth i'r linc 'Ymarfer eich Cymraeg'
- Gair y Dydd – mae linc yn cael ei ddatblygu i'r ymgyrch Gair y Dydd ar Heart FM

Datblygiadau Cenedlaethol

- sefydlu cysylltiadau ar lein drwy ddefnyddio rhwydweithiau fel twitter, facebook ayyb.
- fforwm trafod ar gyfer tiwtoriaid

Mae Cwmni Atom a'r Ganolfan ar fin cychwyn ymgyrch gyda dysgwr o Gaernarfon sy'n ymdebygu i'r cymeriad teledu 'Jim Royle'. Mae wedi gosod her iddo'i hun i ddysgu Cymraeg er mwyn ymdoddi'n well i'w gymuned ac wedi cytuno i sgwennu blog a darparu straeon i'r wasg. Gobeithir y bydd hyn yn codi proffil CiO ymhlith cynulleidfa newydd.

Dangosodd Elliw y taflenni sydd wedi eu hargraffu a'r brand CiO cenedlaethol yn amlwg ynddynt. Mae wedi holi'r Cynulliad ynglŷn â phosibilrwydd cynhyrchu templedi y gall darparwyr eu defnyddio at bwrpas marchnata. Croesawyd yr awgrym hwn.

4. Cynllunio'r Ddarpariaeth yn Strategol - eglurodd JG a PEH gefndir y broses a chyflwyno proses ac amserlen cynllunio darpariaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Rhannwyd y rhai oedd yn bresennol yn ddau grŵp i drafod cwestiynau yn codi o hyn.

Ar ddiwedd y gweithdy cafwyd fod yr arbrawf wedi bod yn werthfawr, fod pawb wedi cyfrannu ac y byddai'n arfer da at y dyfodol. Bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i lunio papur i'r Grwp Strategol ar gyfeiriad strategol cynllunio darpariaeth.

5. **Dysgu Anffurfiol** (Papur B) – cyflwynodd SH y papur yn amlinellu gweithgareddau dysgu anffurfiol sydd wedi eu cynnal ers y cyfarfod diwethaf ac yn rhoi manylion am yr hyn sydd ar y gweill. Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau.

6. **Hyfforddiant** (Papur C(a)) - cyflwynodd SD y papur yn adrodd am yr hyfforddiant sydd wedi ei gynnal hyd yma eleni, yr adborth iddo a'r hyfforddiant sydd wedi ei drefnu am weddill y tymor. Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau.

7. **Hyfforddiant** (Papur C(b)) – Cyflwynodd HH y papur yn amlinellu strwythur yr hyfforddiant i ddarpar diwtoriaid yn 2009/2010. Bydd arsylwi tiwtoriaid profiadol wrth eu gwaith yn elfen bwysig o'r hyfforddiant. 'Roedd y Ganolfan yn cymryd camau i geisio achredu'r hyfforddiant yma gyda CCAUC. (HEFCW).

8. Nid oedd unrhyw faterion i'w dwyn i sylw'r **Panel Adnoddau Cenedlaethol**.

9. **Digwyddiadau** - cyfeiriwyd yr aelodau at yr Adran berthnasol ar y wefan a'r newyddlen.

10. **UFA** – nid oedd unrhyw fater arall a chaewyd y cyfarfod.

Minutes of the Provider Panel 14/10/09 – 1.30pm Madog Room, Coleg Llandrillo

Present Diane Martin, Coleg Glannau Dyfrdwy; Liz Williams, Coleg Glannau Dyfrdwy; Frances Jones, Popeth Cymraeg; Catrin Keller, Coleg Llandrillo; Helen Pritchard Jones, Coleg Iâl; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Howard Edwards, Popeth Cymraeg; Elwyn Hughes, Bangor University; Dafydd Rhys, Coleg Harlech; Ann Rhian Hughes, Coleg Menai; Ifor Gruffydd, WfAC; Haydn Hughes, WfAC; Pam Evans-Hughes, WfAC; Jina Gwyrfai, WfAC; Gary Smith, WfAC; Sian Davies, WfAC; Siwan Hywel, WfAC; Ellen Roberts, WfAC; Elliw Ellis Davies, Atom PR

Apologies: Phil Bassett, Glyndŵr University; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyrn; Fflur Rees Roberts, Coleg Meirion Dwyfor

Election of Chairman: It was proposed that Elwyn Hughes should remain as Chair for another year, there was no amendment and Elwyn agreed to continue with the work. He was thanked for his tireless service.

Paper A, Paper B, Paper C(a) and Paper C(b) were distributed with the agenda prior to the meeting.

1. Minutes of the meeting held on 17/06/09 (Paper A) – the minutes were found to be correct.

2. Matters arising from the minutes

7. Training – the intention had been to offer the qualification in a year in 2009/2010 but the conditions were changed and as it would be necessary to observe a substantial number of additional classes during the year under the new conditions, this would be impractical and it was decided not to offer the qualification this year.

8. Data - the Centre had reached its target and had received additional funding. Some providers had difficulty achieving their target; it is becoming increasingly important to succeed in doing this. IG emphasised the importance that everyone should monitor their performance and ensure that targets are reached this year.

3. Publicity and Marketing – Elliw Ellis Davies was welcomed to the meeting to present a report on the work of ATOM PR Company thus far. Elliw reported that the background work that had been carried out during the last two years was now bearing fruit and that there was visual material to be shown. She gave an introduction to the website in its new form -

- Tutors – there is more development work to be done in this section
- News – any stories or pictures for this section would be welcomed
- Learners – providers were asked to encourage their tutors to promote the use of the website among the learners and to report back with feedback to the link 'Ymarfer eich Cymraeg'
- A Word a Day – a link is being developed to the Gair y Dydd campaign on Heart FM

National Developments

- Establish on-line contacts by using networks such as twitter, facebook etc.
- A discussion forum for tutors

Atom Company and the Centre are about to launch a campaign with a learner from Caernarfon who is similar to the television character 'Jim Royle'. He has set himself the challenge of learning Welsh in order to become more part of his community and has agreed to write a blog and provide stories for the press. It is hoped this will raise the profile of WfA among a new audience.

Elliw showed the leaflets that have been printed and the national WfA brand prominent on them. She has asked the Assembly about the possibility of producing templates that providers can use for marketing purposes. This suggestion was welcomed.

4. **Strategic Planning of the Provision** – JG and PEH explained the background to the process and presented a provision planning process and timetable for the coming year. Those present were divided into two groups to discuss questions that arose from this. At the end of the workshop the experiment was found to have been valuable, that everyone had contributed and that it would be good practice for the future. The feedback will be used to draw up a paper for the Strategic Group on the strategic direction of provision planning.

5. **Informal Learning** (Paper B) – SH presented the paper outlining informal learning activities that have been held since the last meeting and giving details of what is being planned. There were no comments or questions.

6. **Training** (Paper C(a)) – SD presented the paper reporting on the training that has been conducted thus far this year, the feedback from it and the training that has been arranged for the remainder of the term. There were no comments or questions.

7. **Training** (Paper C(b)) – HH presented the paper outlining the structure of the training for prospective tutors in 2009/2010. Observation of experienced tutors at their work will be an important component of the training. The Centre was taking action to seek HEFCW accreditation for this training.

8. There were no matters to be drawn to the attention of the **National Resource Panel.**

9. **Events** – the members were referred to the relevant Section of the website and the news-sheet.

10. **AOB** – there was no other matter to be discussed and the meeting was closed.